



1. Llinos werdd

Dyma aderyn gwyrdd mewn gwirionedd, ond mae'r iâr yn llwytach na'r ceiliog. Mae'r cywion yn fwy brown a rhesi tywyllach drostynt.

Ei fwyd yw yd, a

hadau llw o blanhigion, aeron a blagur coed ffrwythau.

4. Ji-binc

Yn hoffi coedydd, gwrychoedd, llwyni a gerddi. Dydi'r iâr lwydaidd ddim mor hardd â'r ceiliog lliwgar.

Yn hoffi bwyta pryfed a lindys, ffrwythau a blagur. Enwau eraill yw Asgell fraith a Binc.



2. Pila gwyrdd


Aderyn bychan a chanddo big fain a chynffon fforchog, sy'n hoffi bwydo ar gnau mwnci wedi eu gosod yn yr ardd.

Mae'r ceiliog yn

felynwyrdd â stribynnau ysgafn ar ei gefn, cap a bib du. Ei big yn fain a miniog.

6. Jac-y-do


Brân fach lwyd a chanddi gap tywyll, pig fer ac adenydd crwn a llygaid golau. Mae ei hwyneb yn dywyll, ei chorun yn ddu, ei bochau, ei gwar a'i bol yn llwyd olau. Mae'n sefyll yn dalsyth heblaw pan mae'n bwydo.



3. Dryw Aderyn bach crwn a'i gynffon bwt i fyny. Does dim gwahaniaeth rhwng y ceiliog a'r iâr, ond mae mwy o frychni ar y cywion a llai o resi ar eu plu. Yn chwilotwr am fwyd heb ei fath, ond yr hyn mae'n ei hoffi yw pryfed, copynnod, lindys a hadau mân. Ei gynefin – gerddi, gwrychoedd a

6. Cnocell fraith fwyaf

Mae'n byw mewn coedwigoedd neu gymysgedd o goed a chaeau. Du a gwyn yw'r rhan fwyaf o'r plu, ond mae gan y ceiliog ddarn coch ar y gwegil tra bod pen yr iar yn ddu a gwyn i gyd. Aderyn ieuanc sydd yn y llun, yn dangos y coch ar gefn ei ben sy'n nodweddiadol o adar yn eu blwyddyn gyntaf, sy'n absennol yn y Gnocell fraith leiaf, a'r gwahaniaeth mawr mewn maint.



Pryd?

Ble?

Pwynt

1 _____ 20
2 _____ 30
3 _____ 15

Pryd?

Ble?

Pwynt

4 _____ 15
5 _____ 10
6 _____ 30